



## YSGOL GYNRADD ABERAERON

Pennaeth / Head Teacher : Mrs Catrin Thomas

YSGOL GYNRADD ABERAERON,

Maes yr Heli,

Ceredigion, SA46 0BQ

Rhif Ffôn / Telephone No. : 01545 570313

Rhif FFacs / Fax No. 01545 570313

e-bost/e-mail: [swyddfa@ysgolgyraddaberaeron.ceredigion.sch.uk](mailto:swyddfa@ysgolgyraddaberaeron.ceredigion.sch.uk)

safle we / web site: [www.ysgolgyraddaberaeron](http://www.ysgolgyraddaberaeron)

21.11.18

### GWYBODAETH AM DDIGWYDDIADAU

Annwyl Rhiant / Gwarchodwr,

Dyma i chi wybodaeth am rai digwyddiadau cyn diwedd y tymor.

#### **Y Panto – Bl.1-6**

Fel yr ydych yn gwybod mae perfformiadau nadolig yr ysgol yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eleni yr ydym yn perfformio Panto Nadolig. Mi fydd dau berfformiad yn Neuadd Ysgol Gyfun Aberaeron sef ar nos Fawrth y 18fed a nos Fercher y 19eg o Ragfyr am 6:30y.h. Bydd y tocynnau a'r werth o'r swyddfa o ddydd Llun nesaf (26.11.18) ymlaen. Mi fydd 4 tocyn ar gael i bob teulu am £4 yr un.

#### **Wps! Ble Mae'r Seren - Sioe Nadolig Dosbarth Meithrin a Derbyn**

Bydd 3 perfformiad o'r sioe yn cael eu berfformio yn Neuadd yr ysgol sef nos Fawrth y 11eg o Ragfyr am 6:00yh, bore dydd Mercher y 12fed o Ragfyr am 10yb a bore dydd lau y 13eg o Ragfyr am 10yb. Bydd y tocynnau a'r werth o'r swyddfa o dydd Llun nesaf (26.11.18) ymlaen. Mi fydd 3 tocyn ar gael i bob teulu am £3 yr un. Bydd yna gyfle i ddisgyblion blynyddoedd 1-6 i weld y perfformiad ar fore dydd Mawrth y 10fed o Ragfyr.

#### **Nadolig Cymunedol Aberaeron – 1.12.18**

Fel y gwyddoch ar ddydd Sadwrn, y 1af o Ragfyr mae'r ysgol wedi cael ei gwahodd i ganu yn y dref fel rhan o ddathliadau 'Nadolig Cymunedol Aberaeron'. Mi fyddwn yn cwrdd ar bwys Capel Tabernacl i gasglu llusernau am 4.30yp. Yn dilyn yr orymdaith mi fydd y plant yn canu carolau o amgylch y goeden Nadolig. Mae Y Cyng Elizabeth Evans (Maer y Dref) wedi gwneud cais i bawb wisgo'n Nadoligaidd! Bydd stondin gan Ffrindiau'r Ysgol yn yr wyl, os oes gan unrhyw un amser i helpu ar y stondin cysylltwch a Becky Wood.

#### **Sinema – 21.12.18**

Eleni eto mi fydd 'Ffrindiau'r Ysgol' yn talu i'r disgyblion fynd i'r sinema ar fore dydd Gwener y 21ain o Ragfyr. Mi fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol erbyn tua 12:30y.p. Y ffilm eleni yw 'Sherlock Knomes. Gweler nodyn caniatad wedi ei hatodi i'w dychwelyd erbyn y 17eg o Ragfyr.

#### **Diwrnod Siwmppei Nadolig – 21.12.18**

Eleni eto mi fyddwn yn gwisgo ein siwmppei Nadolig/ dillad eu hunain i'r ysgol ar ddiwrnod ola'r tymor sef y 21ain o Ragfyr. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad tuag at apêl 'Bags to School'

#### **Diddanu'r Henoed**

Mi fydd rhai o ddisgyblion yr ysgol yn mynd i ddidanu'r henoed yn eu parti Nadolig blynyddol yn festri Capel Peniel ar brynhawn dydd lau y 13eg o Ragfyr. Mwy o fanylion i ddilyn

#### **Cinio Nadolig**

Bydd cinio Nadolig i'r disgyblion ar ddydd Mawrth y 11eg o Ragfyr. Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r ffurflen atodedig i'n helpu gyda'r trefniadau a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Mawrth y 27ain o Dachwedd. Cost y cinio yw £2.50.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad, Cofiwch gysylltu os oes unrhyw gwestiynau.

Mrs Thomas

